**Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Department for Economy, Science and Transport**

Ein cyf/Our ref ATISN 10274

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

6 Ebrill 2016

Annwyl Mr ,

**Cais am Wybodaeth – ATISN 10274**

Diolch am y cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 7 Mawrth. Rydych yn gofyn pa ganran o'r gyllideb trafnidiaeth sydd wedi cael ei gwario ar ffyrdd, bysus, trenau, seiclo a cherdded bob blwyddyn galendr ac ariannol ers 2006.

Nid ydym yn cadw'r wybodaeth yn y fformat rydych yn gofyn amdani. Mae prosiect unigol, fel arfer, yn gwireddu amcanion mewn sawl maes, e.e. bydd prosiect ar y ffyrdd yn cynnwys elfennau ar gyfer bysus a theithio egnïol ond nid yw'r data ariannol sydd gan Lywodraeth Cymru amdano yn dangos y gwariant ar yr elfennau unigol.

Rwyf wedi dod i'r casgliad, er mwyn darparu'r wybodaeth rydych yn gofyn amdani, y byddai'n costio mwy na'r terfyn a nodir yn Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu'r Data (Terfyn a Ffïoedd Addas) 2004 i ystyried eich cais ac mae'r rheoliadau'n caniatáu imi wrthod delio ag ef. Y terfyn priodol ar gyfer llywodraeth ganol yw £600.

Wrth gyfrif p'un a yw'ch cais yn costio mwy na'r terfyn ai peidio, rwy'n cael ystyried yr amser y bydd ei angen arnaf i weld a oes gennym yr wybodaeth honno, i gael hyd i'r wybodaeth honno ac i mofyn yr wybodaeth a'i chodi. Os amcangyfrifir bod angen mwy na 24 awr o waith i wneud y tasgau hyn, byddwn wedi mynd dros y terfyn.

O gofio'r cyfnod dan sylw a nifer y prosiectau, er mwyn didoli'r data i'r manylder y gofynnir amdano ac yna i gyfrif canran pob elfen, amcangyfrifir yr eir dros derfyn amser y Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer delio â cheisiadau o'r fath. Er mwyn ateb eich cais, byddai'n rhaid darllen ffeiliau cannoedd o brosiectau unigol, heb wybod a fyddai'r wybodaeth wedi'i rhannu yn ôl yr elfennau gofynnol. Mae cipolwg sydyn o'r prosiectau ffyrdd cyfalaf mawr a gynhaliwyd ers 2011 yn unig yn dangos y bu dros 100 o brosiectau. Nid yw'r ffigur hwnnw'n cynnwys cynlluniau rheilffyrdd, cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus, cynlluniau refeniw na chynlluniau a ddarparwyd gan drydydd partïon gan ddefnyddio grantiau Llywodraeth Cymru (e.e. awdurdodau lleol). Rwyf wedi amcangyfrif felly y byddai neilltuo 15 munud ar gyfer pob ffeil yn golygu mwy o lawer o waith darllen na'r terfyn o 24 awr.

EST FOI Team
Welsh Government
Treforest – QED Centre
Main Avenue
Treforest Industrial Est
Pontypridd
CF37 5YR

ES&T-FOI@wales.gsi.gov.uk
www.gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag, mae'r dyraniadau gwariant ar gyfer Trafnidiaeth ers 2011/12 ar gael yn rhwydd yn y Cyllidebau Cyhoeddedig Terfynol blynyddol sydd i'w gweld ar wefan y Llywodraeth yn www.llyw.cymru.

Gan gymryd Cyllideb 2015/16 fel enghraifft, dangosir llinellau priodol yr Adran Drafnidiaeth o dan y penawdau canlynol o fewn Brif Grŵp Gwariant yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth:

| **Refeniw** | **Cyfalaf** |
|---|---|
| Gweithrediadau ar Draffyrdd a Chyffyrdd | Gweithrediadau ar Draffyrdd a Chyffyrdd |
| Gwella a Chynnal y Rhwydwaith Cyffyrdd (Llwybrau Domestig) – Heb fod yn arian parod | Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd |
| Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr | Teithio Cynaliadwy |
| Teithio Cynaliadwy (gan gynnwys bysus) | Cyllido Cyfalaf Cyffredinol – Ffyrdd |
| Tocynnau Rhatach i Bobl Ifanc | Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd |

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi delio â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Os hoffech adolygiad mewnol, holwch Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn:

Uned Hawliau Gwybodaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu

FreedomOfInformationOfficer@wales.gsi.gov.uk.

Cofiwch roi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae hawl gennych hefyd gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Cysylltwch â'r Comisiynydd Gwybodaeth ar:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF.

Cofiwch serch hynny, na fydd y Comisiynydd yn ymchwilio i gŵyn fel arfer tan ar ôl iddi fynd trwy'n proses archwilio fewnol ein hunain.

Yn gywir